# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN

# 2025/2026

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Llanfrothen sy'n gosod cofnod o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/2026.

Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae lle i 8 o gynghorwyr ar y Cyngor, gyda 3 sedd yn wag ar hyn o bryd, er gwaethaf ymdrechion i'w llenwi. Os oes gan unrhyw un diddordeb i ymuno â Chyngor Cymuned Llanfrothen, gofynnir iddyn nhw gysylltu â'r Clerc.

Mae'r Cynghorydd Sir dros Ward Glaslyn, y Cynghorydd June Jones hefyd yn mynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol a gynhelir fel arfer bob mis Mai. Y Cynghorydd Nia Povey oedd Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2025/2026, a'r Is-gadeirydd oedd y Cynghorydd Glyn Griffiths.

**Gwaith y Cyngor**

Dyma grynodeb o'r math o waith cyffredinol y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn.

- Ceisiadau cynllunio - bydd y cynghorwyr yn edrych yn fanwl ar y ceisiadau cyn gwneud penderfyniad ar un ai gefnogi'r cais, dim gwrthwynebiad, neu wrthod.
- Gwaith ar y ffyrdd yn y gymuned – bydd yr Adran Priffyrdd yn anfon manylion am unrhyw waith ffyrdd a/neu ffyrdd yn cau.
- Derbynnir gwybodaeth am gynlluniau, deddfwriaeth newydd, ymgynghoriadau gan fudiadau megis Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Un Llais Cymru a Llywodraeth Cymru, a bydd cyfle i'r cyngor cymuned leisio barn ac ymateb.

- Materion yn y gymuned – bydd y cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau am broblemau sydd yn dod i'r amlwg o dro i dro.
- Mynwent Tan Lan – Y Cyngor sydd yn gyfrifol am Fynwent Tan Lan, am dorri'r gwair yno a'i chadw'n daclus
- Y Ganolfan, Llanfrothen - Mae gan y Cyngor les ar Y Ganolfan, Llanfrothen, gan Gyngor Gwynedd, ac mae yna le i grwpiau cymunedol gyfarfod a chynnal gweithgareddau yno.
  Mae'r Ganolfan yn rhan o adeilad Ysgol Y Garreg, a gan fod Cyngor Gwynedd wrthi'n ymgynghori ar gau'r ysgol o Fedi 2026,yna mae Cyngor Cymuned Llanfrothen yn ystyried dyfodol Y Ganolfan.

## PRIF FATERION A DRAFODWYD YN YSTOD BLWYDDYN 2025/26

### 13 Garreg Frech

Bu llythyru a chysylltu mynych unwaith eto efo Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Mabon ap Gwynfor AS Dwyfor Meirionnydd er mwyn gwneud defnydd o'r eiddo yma sydd mewn cyflwr gwael ac yn dirywio bob blwyddyn

Bu addewid gam Gyngor Gwynedd i erlyn dyled treth cyngor hanesyddol ar yr eiddo, a symud ymlaen i gael gorchymyn arwystl fyddai'n arwain at werthu'r tŷ os na fyddai'r ddyled yn cael ei thalu.

Siomedig felly oedd deall fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu tynnu'r eiddo oddi ar y gofrestr brisio oherwydd ei gyflwr sydd yn golygu y bydd dyledion hanesyddol treth cyngor yn cael eu dileu.

### Llwybr Cyhoeddus Garreg Frech

Parheir i ddisgwyl i glywed gan Gyngor Gwynedd o ran eu bwriadau i gofrestru'r llwybr cyhoeddus yng Ngharreg Frech.

### Tafarn Y Ring, Llanfrothen

Mae’r cyngor cymuned wedi cefnogi’r fenter gymunedol sydd wedi llwyddo i brynu les y dafarn.

Mae tenant yn awr yn rhedeg y dafarn, ac yn ogystal â gwerthu bwyd a diod, mae llawer o weithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yno.

**Mesurau Arafu Traffig yn Garreg, Llanfrothen**

Parhau mae cwynion am oryrru drwy bentref Garreg.

Cafwyd cyfarfod efo Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y posibilrwydd o osod arwydd fflachio cyflymder ar y ffordd i mewn o’r Morfa i bentref Garreg, ac i mewn o gyfeiriad Tan Lan.

Mae angen penderfynu’n fuan pa arwydd sydd fwyaf addas i’w osod.

**Cysgodfan Fws,  Garreg, Llanfrothen**

Bu’r cyngor cymuned yn llwyddiannus i gael grant o £5,500 gan gronfa Gwynedd Ni, £500 o gronfa gymunedol Eryri a £1,000 gan Ymddiriedolaeth Brondanw tuag at adeiladu a gosod y gysgodfan newydd yn y pentref.

Adeiladwyd y gysgodfan gam gwmni Llechen Lan, ac mae’r gysgodfan yn weithredol ers mis Ragfyr 2025.

**Ynni Cymunedol**

Cafwyd cyfarfod cychwynnol efo cynrychiolwyr gwahanol sefydliadau a mentrau yn y gymuned fis Mawrth 2026 er mwyn trafod y posibilrwydd o sefydlu cwmni ynni cymunedol fyddai’n medru defnyddio’r ynni sy’n deillio o gynlluniau hydro Ymddiriedolaeth Brondanw ar gost is i drigolion lleol.

**Diffribliwyr Croesor, Garreg a Rhyd**

Defnyddiwyd y diffribliwr yn Siop a Chaffi Llanfrothen ddiwedd 2025.

Penderfynwyd cynnal cwrs er mwyn sicrhau fod trigolion lleol yn medru defnyddio'r diffibrliwyr yn gymwys.

Mae'r blwch arian a'r cod QR ym maes parcio Croesor yn parhau i dderbyn taliadau ar gyfer y 3 diffribliwr a osodwyd yn lleol.

**Rhoddion Ariannol**

Yn ystod y flwyddyn 2025/26, gwnaethpwyd y rhoddion canlynol:

Ysgol Y Garreg, Llanfrothen £50
Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd £50
Papur Bro'r Wylan £50

**Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol hwn yng nghyfarfod 27 Ebrill 2026 o Gyngor Cymuned Llanfrothen**